Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Hydref 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Hydref 2012

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw ymgymryd â swyddogaethau ac arfer pwerau'r pwyllgor cyfrifol a osodwyd allan yn Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried ac adrodd ar unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol ei natur o fewn neu'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor

David Melding (Cadeirydd)
Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru

Julie James
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe

Eluned Parrott
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru

Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor **5**

Rôl y Pwyllgor **7**

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) **7**

Cefndir 7

Cyflwyniad i'r Bil a throsolwg ohono 8

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth 8

(i) Trefniadaeth Ysgolion – Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion ("y Cod") (Adran 38 a 39) 9

(ii) Cynigion Trefniadaeth Ysgolion – Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir (Adran 57(3)) 10

(iii) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Adran 87) 10

(iv) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg – Rheoliadau a chanllawiau (Adran 88) 10

(v) Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill (Adran 93) 11

(vi) Sefydlu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal (Atodlen 1, paragraff 17(2)) 11

(vii) Atodlen 2 – Newidiadau rheoleiddiedig (Atodlen 2, paragraff 26) 12

(viii) Atodlen 5 – Gweithredu cynigion i newid categori ysgol (Atodlen 5, paragraff 40) 12

(ix) Darpariaethau Cychwyn 12

Pwerau Dirprwyedig nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol 13

(i) Rhesymoli Lleoedd Ysgolion – Cyfarwyddiadau i wneud cynigion ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgolion 13

(ii) Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (Adran 67(2)) 14

(iii) Atodlen 5, Rhan 3, paragraff 34 – Trosglwyddo Tir 15

Pwerau Cyfarwyddo 15

Pwerau i gyhoeddi Canllawiau Statudol 16

Ystyriaethau'r Pwyllgor 17

Tystion **21**
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig **22**

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor wedi'u rhestru isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y gofynion ymgynghori yn adran 39, sy'n ymwneud â chyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion, yn gyson â'r gofynion sydd wedi'u pennu yn adran 34. **tudalen 17**

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylid arfer y pwerau yn adrannau 58(2) a 67(2) drwy offeryn statudol a'u bod yn ddarostyngedig i reolaeth weithdrefnol. **tudalen 17**

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i wneud gorchymyn, sydd wedi'i gynnwys yn adran 67(2), fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o leiaf. **tudalen 18**

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i wneud gorchmynion, sydd wedi'i gynnwys yn adran 58(2), fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ddyrchafedig yn yr un modd â'r weithdrefn sydd wedi'i phennu yn adrannau 34 a 39 o'r Bil. **tudalen 18**

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei chyhoeddi ar ôl Cyfnod 2 ac yn cynnwys manylion am y pwerau y mae'r Bil yn eu gosod ar Weinidogion Cymru na fydd yn cael eu harfer drwy offeryn statudol. **tudalen 18**

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried y posibilrwydd o osod ar wyneb y Bil gysylltiad uniongyrchol rhwng dyddiad cyfrifiad ysgolion a'r dyddiad pan fydd ysgol yn cael ei chategoreiddio fel ysgol fach. **tudalen 19**

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol, i'w chyhoeddi ar ôl cwblhau trafodaethau Cyfnod 2, yn cynnwys tabl o darddiadau sy'n debyg i'r un a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ei lythyr ar 25 Mehefin i Gadeirydd y Pwyllgor. **tudalen 20**

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod tabl o darddiadau yn cael ei gynnwys ym Memorandwm Esboniadol pob Bil yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol. **tudalen 20**

Rôl y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21[1], ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu ddeddfwriaethol sy'n gyffredinol ei natur ac sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

2. O fewn hynny, mae'r Pwyllgor yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad a Biliau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn adrodd ar hynny.

3. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau a hynny'n unol â'r hyn a bennir yn y Rheolau Sefydlog.

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Cefndir

4. Ar 23 Ebrill 2012, cyflwynodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Cyfeiriwyd y Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i graffu arno yng Nghyfnod 1 ac i gyflwyno adroddiad arno erbyn 12 Hydref 2012.

5. Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bil yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill 2012 a chytunodd i graffu arno ymhellach gan ei fod yn cynnwys nifer o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

6. Daeth Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i roi tystiolaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Llun 28 Mai 2012 ynghyd â'i swyddogion. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig yn ychwanegol i dystiolaeth lafar y Gweinidog ar 25 Mehefin 2012.

[1] Rheolau Sefydlog y Pedwerydd Cynulliad – Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyflwyniad i'r Bil a throsolwg ohono

7. Nod y Bil yw:

- diwygio pwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder;
- diwygio pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol;
- darparu ar gyfer canllawiau gwella ysgolion;
- diwygio'r trefniadau statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gynhelir;
- darparu ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
- gwneud darpariaeth amrywiol mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaethau mewn perthynas â brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, codi taliadau hyblyg am brydau ysgol, cwnsela mewn ysgolion, cyfarfodydd rhieni a chod ymarfer ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir.

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

8. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Ceir esboniad o'r rhain yn Rhan 1.5 o'r Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ynghyd â'r Bil ac yn y Nodiadau Esboniadol sy'n ymddangos ar ddiwedd y Memorandwm hwnnw.

9. Mae adran 98 o'r Bil yn nodi'r rheoliadau a'r gorchmynion o dan y Bil sydd i'w gwneud drwy offeryn statudol a gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer yr offerynnau hynny. Mae hefyd yn rhestru rhai pwerau sy'n caniatáu i Orchmynion gael eu gwneud ond nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol.

10. Mae'r Bil yn nodi'r pwerau a ganlyn i wneud is-ddeddfwriaeth:-

(i) Trefniadaeth Ysgolion – Y Cod am Drefniadaeth Ysgolion ("y Cod") (Adran 38 a 39)

11. Mae adran 38 yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar drefniadaeth ysgolion a diweddaru'r cod hwnnw o dro i dro. Bydd y Cod yn cynnwys darpariaethau ynghylch arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, paneli penderfynu lleol ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â chynigion a wneir. Caiff y Cod osod gofynion, a chynnwys canllawiau ar gyfer pennu nodau ac amcanion a materion eraill. Bydd pennu gofynion mewn cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau yn golygu bod modd defnyddio iaith sy'n haws i'w deall gan bartïon sydd â diddordeb. Caiff y Cod arfaethedig osod gofynion, sy'n dangos yn glir ei fod yn ddeddfwriaethol yn ogystal â gweinyddol ei natur.

12. **Gweithdrefn:** Mae adran 39 yn nodi'r weithdrefn i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion. Bydd darpariaethau yn y cod yn seiliedig ar arfer gorau, a bydd y cod yn caniatáu i'r egwyddorion a'r arferion gorau hynny gael eu hymgorffori gydag amser.

13. Bydd y Cod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y Bil. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un addas yn eu tyb hwy ynghylch y Cod drafft (neu'r Cod diwygiedig). Rhaid i gopi drafft o'r Cod gael ei osod gerbron y Cynulliad. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu (cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod) peidio â chymeradwyo fersiwn drafft o'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chyhoeddi'r Cod arfaethedig ar ei ffurf ddrafft.

14. Os na chaiff cynnig o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod. Daw'r Cod, neu'r Cod diwygiedig, i rym ar y dyddiad a bennir drwy Orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r drefn o osod codau Derbyniadau i Ysgolion ac Apelau Derbyn i Ysgolion. Mewn difrif, mae'r weithdrefn hefyd yn adlewyrchu'r "weithdrefn negyddol", er bod feto'r Cynulliad yn arferadwy cyn i'r Cod gael ei wneud yn hytrach na wedi hynny, fel sy'n arferol gydga Offerynnau Statudol.

(ii) Cynigion Trefniadaeth Ysgolion – Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir (Adran 57(3))

15. Mae Pennod 2 o Ran 2 o'r Bil yn gwneud darpariaethau manwl ynghylch sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir, ac wrth wneud hynny yn rhoi pwerau amrywiol i awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a chyrff llywodraethu ysgolion.

16. Mae adran 57 yn adran ddehongli ac mae is-adran (1) yn rhestru nifer o ddiffiniadau sydd ym Mhennod 2. Ystyr "ysgol fach" yw ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud. Ar hyn o bryd, y dyddiad hwn yw dyddiad cyfrifiad blynyddol yr ysgol. Mae adran 57(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, newid y dyddiad yn y Bil os oes angen.

17. **Gweithdrefn:** Mae adran 98(4) yn nodi y bydd gorchymyn a wneir o dan adran 57(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

(iii) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Adran 87)

18. Mae adran 87(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w "gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant." Mae adran 87(2) yn nodi y gall rheoliadau (ymhlith pethau eraill) wneud darpariaethau ynghylch sut a phryd i gynnal asesiad.

19. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(iv) Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg – Rheoliadau a chanllawiau (Adran 88)

20. Mae adran 88(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Mae adran 88(2) yn caniatáu i'r rheoliadau:

- bennu ffurf a chynnwys cynllun (88(2)(a));
- pennu amseriad a hyd cynllun (88(2)(b));

- cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio (88(2)(c));
- ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun a'i ddiwygio (88(2)(d));
- cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo (88(2)(e));
- pryd a sut i gyhoeddi cynllun (88(2)(f)).

21. Mae adran 88(3) yn gwneud darpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno cydgynllun i ganiatáu i awdurdodau lleol gydweithio.

22. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(v) Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill (Adran 93)

23. Mae adran 93 yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ar gyfer disgyblion ysgol a grwpiau penodol eraill. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynllun cwnsela yn cael ei dreialu mewn ysgolion cynradd ar hyn o bryd ac y byddai'r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol. Bydd is-adran (5) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i "wasanaeth cwnsela annibynnol gael ei ddarparu mewn mannau eraill."

24. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(vi) Sefydlu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal (Atodlen 1, paragraff 17(2))

25. Mae paragraff 17(2) o Atodlen 1 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer trosi o fwrdd gweithrediaeth interim i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Mae'r Memorandwm

Esboniadol yn nodi mai diben rheoliadau o'r fath fydd amlinellu'r trefniadau technegol pan fydd y bwrdd gweithrediaeth interim wedi cwblhau ei fusnes, a phan fydd corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal yn derbyn cyfrifoldeb dros lywodraethu a gweithrediaeth yr ysgol.

26. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(vii) Atodlen 2 – Newidiadau rheoleiddiedig (Atodlen 2, paragraff 26)

27. Bydd paragraff 26 o Atodlen 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ychwanegu, dileu neu ddiwygio addasiadau penodedig ysgolion. Mae hwn yn bŵer sylweddol gan ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Bil yn y cyd-destun hwn, heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.

28. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

(viii) Atodlen 5 – Gweithredu cynigion i newid categori ysgol (Atodlen 5, paragraff 40)

29. Mae Atodlen 5 yn darparu gweithdrefnau ar gyfer adeg pan fydd ysgol yn newid categori yn unol â chynigion. Mae paragraff 40 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran gweithredu cynigion i newid categori ysgol o ran llywodraethu'r ysgol.

30. **Gweithdrefn**: Bydd unrhyw reoliad o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (Adran 98(4)).

(ix) Darpariaethau Cychwyn

31. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer adrannau 1 (trosolwg), 101 (cychwyn) ac 102 (teitl byr a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg) i ddod i rym ar y diwrnod ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

32. Daw Pennod 3 (canllawiau gwella ysgolion) o Ran 2, adran 92 (diwygio'r pŵer i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc.) a pharagraffau 26, 29(1), 30 a 31 o Ran 3 o Atodlen 6 (diwygiadau canlyniadol i adran 92) (ac adran 100 mewn perthynas â'r paragraffau hynny) i rym ddau fis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

33. Mae Adran 101(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion cychwyn i ddod â rhannau eraill y Bil i rym pan fydd angen.

34. **Gweithdrefn:** Ni ddarperir gweithdrefn graffu ar gyfer gorchmynion cychwyn, sy'n drefn arferol ddeddfwriaethol.

Pwerau Dirprwyedig nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol

35. Yn y Bil hwn, mae rhai darpariaethau yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion nad ydynt yn arferadwy drwy offeryn statudol ac nad ydynt, felly, yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau craffu'r Cynulliad.

(i) Rhesymoli Lleoedd Ysgolion – Cyfarwyddiadau i wneud cynigion ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgolion

36. Mae adran 58 yn gwneud darpariaethau ar gyfer achlysuron lle mae Gweinidogion Cymru yn credu bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir mewn ardal awdurdod lleol neu mewn rhan o'r ardal honno.

37. Mae adran 58(2) yn gwneud darpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn:

> "(a) cyfarwyddo'r awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, a
>
> (b) cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig, gwirfoddol neu arbennig sefydledig a gynhelir gan yr awdurdod i arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol."

38. Rhaid i orchymyn o'r fath wedyn ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion:

- gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y gorchymyn,
- i'r cynigion gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir yn y gorchymyn, a
- pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth annigonol, neu ei bod yn debygol y bydd darpariaeth annigonol, pennu'r nifer ychwanegol o ddisgyblion y mae lle i'w drefnu ar eu cyfer.

39. **Gweithdrefn:** Mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan adran 58(2) yn cael ei wneud drwy offeryn statudol. Felly ni fydd unrhyw orchymyn yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau craffu'r Cynulliad.

(ii) Darpariaeth Ranbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (Adran 67(2))

40. Mae'r bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer y posibilrwydd i ddau neu fwy o awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau addysg arbennig yn rhanbarthol os y bernir y byddai'n fwy effeithiol neu effeithlon i wneud hynny.

41. Mae adran 65 yn darparu diffiniadau o'r hyn a ystyrir yn "ddarpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig". Mae adran 66 yn gwneud darpariaeth:

> "[y] caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried a fyddent hwy yn gallu cyflawni eu swyddogaethau addysg arbennig, mewn cysylltiad a phlant sydd a'r anghenion addysgol arbennig a bennir yn y cyfarwyddyd, yn fwy effeithlon neu effeithiol pe cai darpariaeth ranbarthol ei gwneud."

Mae is-adran (2) yn nodi

> "rhaid i'r awdurdodau y rhoddir cyfarwyddyd iddynt gyflwyno adroddiad ar eu casgliadau i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na'r amser a bennir yn y cyfarwyddyd."

42. Mae adran 67(2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion er mwyn sicrhau bod darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r disgrifiad o blant o'r ardaloedd a bennir.

43. **Gweithdrefn:** Yn debyg i adran 58(2), mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan adran 67(2) yn arferadwy gan offeryn statudol. Felly, ni fydd unrhyw orchymyn yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau craffu'r Cynulliad.

(iii) Atodlen 5, Rhan 3, paragraff 34 – Trosglwyddo Tir

44. Mae paragraff 34 o Atodlen 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn mewn perthynas â throsglwyddo tir mewn rhai amgylchiadau sy'n eithrio rhai darpariaethau a gofynion a fyddai'n gymwys fel arfer ar gyfer mathau eraill o drosglwyddo tir o dan y Bil.

45. **Gweithdrefn:** Mae adran 98(2) yn nodi na fydd gorchymyn a wneir o dan baragraff 34(1)(b) yn arferadwy gan offeryn statudol ac na fydd, felly, yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu bellach gan y Cynulliad. Mae hwn yn debyg i orchymyn prynu gorfodol na fyddai'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Pwerau Cyfarwyddo

46. Mae'r Bil, fel yr amlinellodd y Gweinidog yn ei lythyr ar 16 Mai 2012, yn cynnwys sawl pŵer cyfarwyddo arall ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

47. Mae pwerau cyfarwyddo yn adrannau 12, 15, 16 a 17 sy'n ymwneud ag ymyrraeth Gweinidogion Cymru mewn Corff Llywodraethu Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gydweithio a sicrhau cyngor gan drydydd partïon, pŵer i gyfarwyddo ffedereiddio ysgolion, pŵer i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau a phŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau.

48. Mae adrannau 24, 25, 26, 27 a 28 yn cynnwys pwerau cyfarwyddo mewn perthynas ag ymyrraeth Gweinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol. Mae'r pwerau cyfarwyddo hyn yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael gwasanaethau cynghori; i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod; i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai; y pŵer i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer; a phŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau.

49. Mae adran 82 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i derfynu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig a gynhelir ganddo ar ddiwrnod penodedig, os ydynt yn credu ei bod yn hwylus gwneud hynny er iechyd, diogelwch neu les disgyblion yn yr ysgol.

50. Yn olaf, mae adran 94 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am eu gwasanaethau cwnsela annibynnol.

Pwerau i gyhoeddi Canllawiau Statudol

51. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys nifer o bwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar amrywiaeth o bynciau.

52. Mae adran 20 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r modd y maent yn defnyddio'u pwerau ymyrraeth. Nid yw'r pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Cynulliad.

53. Mae adran 33 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion. Cyn cyhoeddi canllawiau o'r fath, mae'n ddarostyngedig i weithdrefn graffu'r Cynulliad fel sydd wedi'i nodi yn adran 34 o'r Bil.

54. Mae'r weithdrefn hon yn debyg i'r weithdrefn negyddol. Yn rhinwedd adran 35, rhaid i awdurdod ysgol ddilyn y canllawiau oni bai ei fod yn cyflwyno datganiad polisi sy'n rhestru sut y mae'n bwriadu arfer dyletswyddau yn wahanol a'r rhesymau pam ei fod yn ceisio arfer swyddogaethau yn wahanol. Mae hyn yn rhoi'r nodweddion deddfwriaethol iddi sy'n cyfiawnhau defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad. Er gwaethaf hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i gyfarwyddo awdurdod ysgol i gymryd camau i gydymffurfio â'r canllawiau gwella ysgolion statudol (adran 37).

55. Mae adran 89(5) o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ynghylch brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd.

56. Mae adran 93(2)(b) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch Cwnsela mewn Ysgolion.

Ystyriaethau'r Pwyllgor

57. Er ein bod yn credu bod defnyddio'r weithdrefn negyddol ddyrchafedig yn adran 39, sy'n ymwneud â chyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion, yn briodol, teimlwn fod y trefniadau ar gyfer ymgynghori—sydd wedi'u pennu yn y Bil—yn annigonol, a bod angen cynnwys rhagor o ofynion ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phersonau penodol cyn gosod y cod. Yn benodol, credwn y dylai'r gofynion ymgynghori yn adran 39 fod yn gyson â'r gofynion sydd wedi'u pennu yn adran 34, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n benodol â'r awdurdodau ysgol y mae'r canllawiau yn debyg o effeithio arnynt ac unrhyw bersonau eraill y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y gofynion ymgynghori yn adran 39, sy'n ymwneud â chyhoeddi Cod Statudol ar drefniadaeth ysgolion, yn gyson â'r gofynion sydd wedi'u pennu yn adran 34.

58. Mewn perthynas â'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion yn adrannau 58(2) a 67(2), rydym yn pryderu nad yw'r pwerau hyn yn arferadwy drwy offerynnau statudol ac nad ydynt, felly, yn ddarostyngedig i unrhyw reolaeth weithdrefnol yn y Cynulliad.

59. Er ein bod yn derbyn bod y darpariaethau hyn yn ailddatgan darpariaethau sydd eisioes yn bodoli yn *Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998* a *Deddf Addysg 2002*, nid ydym o'r farn mai dyma yw'r arfer gorau. Gan hynny, rydym yn credu bod y Gweinidog wedi methu cyfle i wella'r darpariaethau presennol hyn drwy gyflwyno rheolaeth weithdrefnol lymach yn y Bil er mwyn sicrhau y gellir craffu'n well ar orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylid arfer y pwerau yn adrannau 58(2) a 67(2) drwy offeryn statudol a'u bod yn ddarostyngedig i reolaeth weithdrefnol.

60. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r pŵer i wneud gorchymyn sydd wedi'i gynnwys yn adran 67(2), sy'n ymwneud â diogelu darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o leiaf.

61. Fodd bynnag, mae'r pŵer i wneud gorchymyn sydd wedi'i gynnwys yn adran 58(2) o'r Bil, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, yn arwyddocaol iawn. Cred y Pwyllgor y byddai gweithdrefn negyddol ddyrchafedig, fel sydd wedi'i phennu ar wyneb y Bil yn adrannau 34 a 39, yn briodol ar gyfer y pŵer hwn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i wneud gorchymyn, sydd wedi'i gynnwys yn adran 67(2), fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o leiaf.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i wneud gorchmynion, sydd wedi'i gynnwys yn adran 58(2), fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ddyrchafedig yn yr un modd â'r weithdrefn sydd wedi'i phennu yn adrannau 34 a 39 o'r Bil.

62. I ddechrau, nid oeddem o'r farn bod y Gweinidog wedi rhoi rheswm digonol yn ei dystiolaeth lafar dros y pwerau i wneud gorchmynion sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 34 o Atodlen 5 ynghylch trosglwyddo tir ysgol. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r eglurhad a gafwyd gan y Gweinidog yn ei lythyr ar 25 Mehefin 2012, ac yn derbyn bod y pŵer y mae'n ei geisio yn yr achos hwn yn briodol.

63. Er i ni groesawu ymrwymiad y Gweinidog i hysbysu'r Cynulliad drwy ddatganiadau ysgrifenedig o unrhyw orchmynion, cyfarwyddiadau neu ganllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn y dyfodol, rydym yn siomedig na chafodd gwybodaeth am natur ac ehangder y pwerau hyn ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Yn ein barn ni, dylai manylion am y pwerau y mae'r Bil yn eu gosod ar Weinidogion Cymru, na fydd yn cael eu harfer drwy offeryn statudol, gael eu cynnwys mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar ôl i drafodaethau Cyfnod 2 ddod i ben.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei chyhoeddi ar ôl Cyfnod 2 ac yn cynnwys manylion am y pwerau y mae'r Bil yn eu gosod ar Weinidogion Cymru na fydd yn cael eu harfer drwy offeryn statudol.

64. Mae'r defnydd o'r weithdrefn negyddol ddyrchafedig i reoli'r pwerau sydd wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau

gwella ysgolion, o dan adran 33 o'r Bil, yn briodol. Fodd bynnag, mae'r diffyg rheolaeth weithdrefnol ar bwerau tebyg i gyhoeddi canllawiau statudol yn adrannau 20, 89 a 93 yn anghyson.

65. Ni chawsom ein perswadio yn llwyr gan ddadl y Gweinidog y byddai gosod rheolaeth weithdrefnol ar y pwerau hyn yn golygu oedi diangen wrth gyhoeddi canllawiau o'r fath. Rydym wedi cytuno i beidio â gwneud argymhelliad penodol am y pwynt hwn, ond efallai y byddai'r Gweinidog yn dymuno ystyried cynnwys unrhyw reolaethau gweithdrefnol ychwanegol yn y Bil.

66. Rydym yn derbyn rhesymau'r Gweinidog dros geisio pwerau o dan adran 57, a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru newid y dyddiad pan fydd ysgol yn cael ei chategoreiddio yn ysgol fach, ac mai bach fyddai effaith defnyddio pŵer o'r fath. Fodd bynnag, gellid gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddarpariaeth hon a manylion sydd wedi'u pennu yng nghyfrifiad ysgolion, er mwyn osgoi'r angen am bwerau o'r fath yn y lle cyntaf.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried y posibilrwydd o osod ar wyneb y Bil gysylltiad uniongyrchol rhwng dyddiad cyfrifiad ysgolion a'r dyddiad pan fydd ysgol yn cael ei chategoreiddio fel ysgol fach.

67. Rydym yn croesawu'r eglurhad a gafwyd gan y Gweinidog y bydd darpariaethau yn adran 95, i gynnal cyfarfodydd rhieni, yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol yn hytrach nag ar ddyddiadau a bennwyd gan Weinidogion Cymru mewn gorchmynion cychwyn fel sydd wedi'i nodi yn y Bil ar hyn o bryd. Rydym yn nodi sicrhad y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn trafodion Cyfnod 2.

68. Rydym yn croesawu cydgrynhoi'r gyfraith ar ymyrryd mewn ysgolion ac awdurdodau lleol a threfniadaeth ysgolion yn y Bil. Mae dod â nifer o ddarpariaethau sydd mewn gwahanol ddeddfau ynghyd yn rhoi mwy o eglurder i'r gyfraith addysg yng Nghymru a gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un egwyddorion cydgrynhoi ar gyfer Biliau eraill a gyflwynir yn y dyfodol. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r broses graffu petai tabl yn nodi tarddiad y ddeddfwriaeth sydd i'w cydgrynhoi, wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r tabl a ddarparwyd gan y Gweinidog i Gadeirydd y Pwyllgor ar 25 Mehefin 2012. Rydym yn credu y dylid cynnwys y tabl hwn hefyd mewn fersiwn

ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol i'w chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar ôl cwblhau trafodaethau Cyfnod 2.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol, i'w chyhoeddi ar ôl cwblhau trafodaethau Cyfnod 2, yn cynnwys tabl o darddiadau sy'n debyg i'r un a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ei lythyr ar 25 Mehefin i Gadeirydd y Pwyllgor.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod tabl o darddiadau yn cael ei gynnwys ym Memorandwm Esboniadol pob Bil yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn www.cynulliadcymru.org

28 Mai 2012

Leighton Andrews AC	Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Gyda'r swyddogion a ganlyn:	
Mr Anthony Jordan	Pennaeth Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion, Llywodraeth Cymru
Ms Amina Rix	Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
Mr Simon Morea	Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
Mr Ceri Planchant	Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

Papur	*Cyfeirnod*
Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)	CLA(4)-12-12 (p9)
Memorandwm Esboniadol i'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)	CLA(4)-12-12 (p10)
Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol	CLA(4)-12-12(p11)
Llythyr gan y Cadeirydd at Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau	CLA(4)-12-12(p12)
Ymateb y Gweinidog	CLA(4)-12-12(p11)
Atodiadau 1 a 2	CLA(4)-12-12(p13) – Atodiadau 1 a 2
Llythyr gan y Cadeirydd at Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn gofyn am wybodaeth ychwnaegol	CLA(4)-17-12 (p1)
Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog	CLA(4)-17-12 (p2)